


GWASANAETH YSGOLION

Dogfen Polisi a Strategaeth ar sefydlu dull Ysgol Gyfan ar gyfer lechyd Meddwl a Lles Emosiynol yn Ysgolion Powys.

Hydref 2024



Cynnwys

Trosolwg a Diben y Polisi	3
Dull ysgol gyfan o ddatblygu iechyd meddwl a lles emosiynol: crynodeb	4
Cwricwlwm i Gymru	6

Y Pedwar Diben	6
Y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (AoLE)	6
Elfennau Gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru.....	7
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	7
Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.....	7
Gofynion ehangach a themâu trawsbynciol	8
Hawliau Dynol	8
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	8
Presenoldeb.....	9
Diogelu	9
Cyflawni dull ysgol gyfan.....	9
.....	10
Awgrymiadau ar gyfer datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol: Cynllun Datblygu Ysgol.....	11
Adeiladu ar arfer effeithiol presennol ym Mhowys	22
Cyfleoedd Hyfforddiant a Dysgu Proffesiynol	26
Cymorth sydd ar gael gan asiantaethau allanol	27
Cyfeiriadau yn y Cefndir	27

Hanes y Ddogfen

Dyddiad	Fersiwn	Awdur	Crynodeb o'r Diwygiad
Hydref 2021	1.1	Mary Strong a Christopher Davies	Mae'r polisi newydd hwn yn disodli 'dogfen Polisi a Strategaeth Powys i helpu i wella Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol yn Ysgolion Powys (2020)'. Mae'r fersiwn hwn yn cyd-fynd â Fframwaith Llywodraeth Cymru ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol a'r Cwricwlwm i Gymru.
01.10.23	1.2	Christopher Davies ac Andrew Farrell	Ychwanegwyd Adrannau ar Gyfarfodydd Tîm o Amgylch y Clwstwr (TAC) a Chodi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig (RADY), a diweddarwyd manylion cyswllt swyddogion.
01.10.24	1.3	Mary Strong, Christopher Davies ac Andrew Farrell	Mae'r holl ddiweddariadau wedi'u huwcholeuo mewn melyn. Diwygiwyd manylion Hyfforddi Emosiwn. Diweddarwyd yr adran lles staff. Hawliau Dynol – UNCRPD wedi'i gynnwys

			Manylion asiantaeth allanol wedi'u diweddarau ar gael nawr fel dogfen ar wahân..
--	--	--	--

Y ddogfen i'w hadolygu erbyn 01/10/2025

Dogfen Polisi a Strategaeth ar sefydlu dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol yn Ysgolion Powys.

Trosolwg a Diben y Polisi

Mae gwella iechyd meddwl a lles emosiynol pob aelod o'n cymunedau dysgu ym Mhowys yn hanfodol. Ein gweledigaeth ym Mhowys yw bod lles ac iechyd meddwl da yn dod yn flaenoriaeth strategol, wedi'i ymgorffori yn niwylliant ac ethos pob ysgol. Nod y polisi hwn yw cefnogi ysgolion i ddatblygu amgylcheddau cynhwysol ac emosiynol iach ar gyfer plant ac oedolion.

Pam fod agwedd gynhwysol tuag at iechyd meddwl a lles emosiynol mor bwysig i ni ym Mhowys nawr?

Yr Argyfwng Iechyd Meddwl: Mind Cymru 2020

'Anaml iawn y bu amser mwy tyngedfennol ar gyfer blaenoriaethu iechyd meddwl y genedl Gymreig.'

'Gyda chefnogaeth (canfyddiadau'r adroddiad hwn) ... rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi iechyd meddwl wrth wraidd eu cynlluniau adfer.

Cyflwr Iechyd Plant 2020 Cymru:

Rhwng 2014 a 2020 bu bron i gyfraddau hunanladdiad ar gyfer pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed ddyblu: o 4.9 fesul 100,000 i 9.7.

Adroddiad Pwyllgor Cymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Senedd Ieuenctid Cymru 'Gadewch i ni Siarad am Iechyd Meddwl.' Hydref 2020

'Mae 60 y cant o blant a phobl ifanc yn profi emosiynau anodd neu broblemau iechyd meddwl o leiaf unwaith yr wythnos yng Nghymru'. Mae'r adroddiad hwn yn gweld y cwricwlwm newydd yng Nghymru, a fydd yn cael ei gyflwyno o 2022 ymlaen fel cyfle i ymgorffori iechyd meddwl yn yr ystafell ddosbarth'.

Adroddiad British Journal of Psychiatry: erthygl gan y Guardian, Chwefror 2021

Mae tua 7% o blant wedi ceisio hunanladdiad erbyn eu bod yn 17 oed ac mae bron i un o bob pedwar yn dweud eu bod wedi hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf... gallai'r ffigyrau godi o ganlyniad i'r pandemig.

Effaith COVID

Mae COVID wedi effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol pawb. Daw'r canlyniadau isod o'r arolwg "Iechyd Meddwl Pobl Ifanc" (Adroddiad COVID-19 – Medi 2021) ac maent yn tynnu sylw at rai o'r heriau y mae ein plant a'n pobl ifanc yn eu hwynebu yng ngoleuni'r pandemig byd-eang.

Mewn ymateb i'r arolwg:

- Dywedodd rhai pobl ifanc y byddent wedi hoffi cael mwy o gyfathrebu gan athrawon i siarad am eu hiechyd meddwl a'u lles.
- Roedd yn amlwg efallai nad yw pobl ifanc yn cael mynediad at help ar-lein neu dros y ffôn oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael.
- Dywedodd rhai pobl ifanc nad oeddent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt nac yn eu cymryd o ddifrif ar yr adeg yr oeddent yn chwilio am help. Mae pobl ifanc eisiau gallu siarad â rhywun a theimlo bod rhywun yn gwrando arnynt.
- Dywedodd rhai pobl yr hoffent gael mwy o wybodaeth am sut i ofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles.

I gloi'r datganiadau uchod, mae angen i les fod yn flaenoriaeth ym mhob ysgol a lleoliad. Mae angen rhoi cyfle i bobl ifanc siarad am ieuchyd meddwl a lles emosiynol a deall mwy amdano. Mae'r pwyntiau uchod yn cysylltu'n uniongyrchol â phwysigrwydd datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag ieuchyd meddwl a lles emosiynol mewn ysgolion ledled Powys, a pherthnasedd y Maes Dysgu a Phrofiad Ieuchyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gellir darllen yr adroddiad llawn yma: [Cyngor Ieuchyd Cymuned Powys - Ieuchyd Meddwl Pobl Ifanc Yn Ystod COVID-19 \(Medi 21\)](#)

Dull ysgol gyfan o ddatblygu ieuchyd meddwl a lles emosiynol: crynodeb

Mewn dull ysgol gyfan, mae lles ac ieuchyd meddwl yn berthnasol i bawb, gydag ymgysylltiad gwirioneddol ar draws y gymuned ysgol gyfan. Mae hyn yn cynnwys: staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a gwasanaethau allanol. Dylai lles fod yn flaenoriaeth i bawb, ac wrth galon y cwricwlwm, hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ym mhob ysgol. Mae cysylltiad annatod rhwng ieuchyd meddwl da ac amgylchedd dysgu effeithiol, a dylid sefydlu ymwybyddiaeth ieuchyd meddwl drwy ddull ysgol gyfan.

Lles yw'r cydbwysedd rhwng cydnerthedd unigolyn a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae lles cadarnhaol yn ymwneud â datblygu'r gallu i unigolion lywio cyfleoedd ac anawsterau bywyd.

Mae'r pwyntiau canlynol yn crynhoi ein gweledigaeth ar gyfer Powys, gan dynnu ar ddisgwyliadau Fframwaith Llywodraeth Cymru ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol (2021):

1. Cydnabod a mynd i'r afael ag anghenion lles meddyliol ac emosiynol pob plentyn a pherson ifanc a'r oedolion y maent yn gweithio gyda nhw, gan gydnabod bod lles da i bawb yn galluogi llwyddiant allweddol, ac yn cyflawni

potensial personol, emosiynol ac academaidd.

2. Dylai dull ysgol gyfan cynhwysol gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol da i bawb. Mae'n ymwneud â meithrin cydnerthedd a sicrhau camau ataliol drwy ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol.
3. Galluogi pob dysgwr i wybod sut, pryd a ble i fynd ati i chwilio am gymorth i'w hunain ac i eraill.
4. Cydnabod cyfrifoldeb yr ysgolion i nodi arwyddion o lesiant gwael a sicrhau bod cymorth effeithiol yn cael ei roi ar waith pan fydd dysgwr yn profi gofid mwy difrifol.
5. Cydnabod arfer effeithiol presennol ym Mhowys a chefnogi'r gwaith o ddatblygu dull strategol ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol drwy ddefnyddio'r dulliau hyn, neu ddulliau tebyg, sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eich lleoliad.
6. Mae angen cysylltu'r polisi hwn â chwricwlwm yr ysgol, gan sefydlu lles da drwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Drwy eu cylch gwella ysgolion, mae angen i ysgolion nodi eu cryfderau a'u meysydd datblygu, gan gyd-lunio cynllun i fynd i'r afael â bylchau ac adolygu effaith camau gweithredu. Dylai'r broses hon o fyfyrrio a gwella fod yn barhaus.
7. Dylai'r broses hon ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddweud wrth bartneriaid/ rhanddeiliaid beth yw eu barn am y camau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith, gan nodi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac ar eu cyfer.
8. Cyfrifoldeb holl aelodau cymuned yr ysgol yw hyrwyddo'r polisi hwn yn weithredol; Corff Llywodraethu, Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Staff Addysgu a Chymorth.
9. Dylai Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid benodi arweinydd dynodedig ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol ym mhob ysgol, er mwyn cydlynu dull cydweithredol gyda'r holl randdeiliaid.
10. Gweithio i fod yn gydweithredol o fewn a rhwng ysgolion, clystyrau, Awdurdodau Lleol, rhanbarthau a phartneriaethau amlasiantaethol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau cyffredin, gan na all ysgolion ar eu pen eu hunain ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc.
11. Yr Awdurdod Lleol i hwyluso hyfforddiant i'r holl staff allweddol, er mwyn sicrhau bod pob ysgol a chymuned yn dod yn fwy gwybodus ac mewn sefyllfa

well i nodi, deall a chefnogi anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol.

12. Yr Awdurdod Lleol i roi sylw i'r polisi hwn wrth gyflwyno addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

13. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Cwricwlwm i Gymru

Dylai'r polisi hwn, ynghyd â Fframwaith Llywodraeth Cymru ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol, gefnogi ac ategu'r Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Dylid ystyried bod agwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles emosiynol yn ganolog i lwyddiant y pedwar diben. Dylid darparu cyfleoedd pwrpasol i *bob* plentyn a pherson ifanc ddysgu am les emosiynol a meddyliol ar draws pob agwedd ar gwricwlwm ysgol, ac yn benodol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Dylai cwricwlwm pob ysgol roi iechyd a lles wrth ei wraidd; gan sicrhau bod iechyd meddwl yn cael yr un cydraddoldeb ag iechyd corfforol a lles emosiynol a chyrhaeddiad.

Mae [Fframwaith Cwricwlwm i Gymru](#) yn rhoi cyfle i bob ysgol gynllunio cwricwlwm cynhwysol ac ymatebol sy'n diwallu anghenion *pob* dysgwr, yng nghyd-destun yr ysgol unigol. Mae'r Fframwaith yn annog ysgolion i adeiladu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer y cwricwlwm, gan sefydlu'r weledigaeth gyffredin o'r pedwar diben, a'r dysgu a ddiffinnir ar lefel genedlaethol a lleol. Mae Cwricwlwm i Gymru hefyd yn caniatáu i ymarferwyr fod yn greadigol a datblygu profiadau dysgu pwrpasol, dilys ac ystyrlon drwy ystod eang o gyfleoedd a chyd-destunau, sy'n diwallu anghenion pawb. Felly, dylid ystyried y polisi hwn, ynghyd â Fframwaith Llywodraeth Cymru, o fewn cynllun cwricwlwm ysgol.

Y Pedwar Diben

Y [Pedwar Diben](#) yw'r weledigaeth gyffredin o'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynrychioli uchelgeisiau a dyheadau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru o 3 i 16 oed. Mae lles emosiynol a meddyliol yn chwarae rhan bwysig wrth ganiatáu i'n dysgwyr 'fod' a 'dod yn' y Pedwar Diben. Drwy ddod yn *unigolion iach a hyderus*, bydd dysgwyr yn adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol, gan ddatblygu hyder, cydnherthedd ac empathi. Trwy'r sgil *effeithiolrwydd personol* [sy'n rhan annatod o'r pedwar diben](#), dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, a chael eu cefnogi i reoli profiadau a gweithredu gydag empathi, tosturi a charedigrwydd drostynt eu hunain ac eraill.

Y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (AoLE)

Mae Polisi Powys a [Fframwaith Llywodraeth Cymru](#) yn cefnogi ac yn ategu'r [Maes Iechyd a Lles](#). Mae'r Maes hwn yn ymwneud â datblygu gallu dysgwyr i lywio cyfleoedd a heriau bywyd, gan roi pwysigrwydd ar iechyd meddwl a lles emosiynol, a'i gysylltiadau â lles corfforol a chydnerthedd. Mae dysgu am iechyd meddwl a lles emosiynol yn un o [Ddatganiadau O'r Hyn Sy'n Bwysig](#) yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Datganiadau hyn yn elfennau gorfodol o gwricwlwm pob ysgol, a thrwy'r

datganiadau hyn y gellir archwilio egwyddorion, pynciau a materion allweddol, gan roi hyblygrwydd i ysgolion nodi'r meysydd hynny sy'n berthnasol i anghenion eu dysgwyr, eu hysgol/lleoliad, a'u cymuned.

Elfennau Gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru a dylai fod yn rhan o ddull ysgol gyfan, wedi'i integreiddio'n effeithiol a'i ddatblygu ar draws y cwricwlwm. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau perthnasoedd boddhaus, iach a diogel drwy gydol eu hoes. Dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae ffydd, credoau, hawliau dynol a diwylliant pobl yn gysylltiedig â phob agwedd ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan ddeall sut y gall yr hawliau hyn gyfrannu at les pawb. Gall y themâu a'r materion a gwmpesir gan elfen orfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithio ar les emosiynol a meddyliol ein dysgwyr. Ar draws y themâu hyn, dylai cynnwys y cwricwlwm yn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn gynhwysol ac adlewyrchu amrywiaeth. Felly, dylai'r dysgu o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+. Pan fydd ysgolion yn cynllunio ar gyfer darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dylid ystyried ffactorau fel datblygiad corfforol a meddyliol ac emosiynol dysgwyr.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE)

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob dysgwr o 3 i 16 oed. Un o nodweddion pedwar diben y cwricwlwm yw y bydd dysgwyr yn cael cymorth i ddatblygu fel unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Darperir cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol yn y [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig](#) i Ardal y Dyniaethau ac mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lawer o gyfraniadau gwerthfawr a nodedig i'w gwneud.

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynnwys cymorth i ddysgwyr; datblygu ymdeimlad o'u natur unigryw a'u gwerth; myfyrio ar eu teimladau a'u barn eu hunain a'u mynegi; datblygu dyheadau a dysgu byw gyda siom; dangos empathi ac ystyriaeth i eraill; datblygu tosturi a helpu eraill; datblygu llais a gwrando gyda pharch at leisiau pobl eraill a ffurfio perthnasoedd da. Gall yr holl ffactorau hyn gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.

Gofynion ehangach a themâu trawsbynciol

Hawliau Dynol

Mae'r polisi hwn hefyd yn rhoi sylw dyledus i [Hawliau Dynol](#), gofyniad ehangach a thema drawsbynciol o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan blant a phobl ifanc a phobl anabl hawliau dynol penodol wedi'u gwarantu o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD).

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawliau o dan [CCUHP](#) i fod yn ddiogel, i gael eu trin â chydarddoldeb a dim gwahaniaethu, i gael eu cefnogi i ddatblygu eu hiechyd corfforol a meddyliol, i fynegi eu meddyliau a'u teimladau, i fod yn rhan o benderfyniadau a wneir amdanynt, i dderbyn cymorth ychwanegol os ydynt yn anabl, ac i dderbyn addysg sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial. Yn benodol, mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygu'r canlynol:

- Erthygl 6, sy'n cydnabod bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i oroesi a'r hawl i ddatblygu
- Erthygl 12, sy'n datgan bod gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried
- Mae Erthygl 24, sy'n dweud y dylai gofal iechyd i blant a phobl ifanc fod cystal â phosibl, ond mae hefyd yn mynd ymhellach na hyn drwy ddweud bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i fod yn fodlon yn gorfforol ac yn feddyliol.
- Erthygl 29, sy'n dweud y dylai addysg plentyn neu berson ifanc helpu ei feddwl, ei gorff a'i ddoniau i fod y gorau y gall. Dylai hefyd adeiladu eu parch at bobl eraill a'r byd o'u cwmpas. Yn benodol, dylent ddysgu parchu eu hawliau a hawliau pobl eraill.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ofyniad ehangach o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Er nad yw'r Ddeddf hon yn gosod dyletswyddau penodol ar ysgolion, mae'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol a chenedlaethol gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gydweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Un o'r Saith Nod Llesiant yw 'Cymru iachach.' Mae'r nod penodol hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu “*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol*”. Gall ysgolion ystyried y Ddeddf hon wrth ddatblygu eu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol, gan ystyried nodau cenedlaethol.

Gellir ystyried yr holl agweddau uchod o fewn cynllun cwricwlwm ysgol, gan sicrhau bod Polisi Powys a Fframwaith Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn ategu'r Cwricwlwm i Gymru.

Presenoldeb

Gall presenoldeb yn yr ysgol fod yn gymhleth iawn ac ni ddylid ei ystyried ar wahân i agweddau eraill ar addysg a lles dysgwyr. Mae llawer o achosion sylfaenol dros absenoldeb dysgwyr. Mae p'un a yw dysgwr yn mynychu'r ysgol yn dibynnu ar lawer o ffactorau, ac yn achos unrhyw ddysgwr penodol, mae'r rhesymau'n aml yn gyfuniad o achosion generig a phenodol. Mae cymorth da ar gyfer lles dysgwyr ac iechyd meddwl ac amgylchedd dysgu effeithiol wedi'u cysylltu'n hanfodol, a dylid hyrwyddo'r ddau drwy ddull ysgol gyfan.

Mae gwella presenoldeb yn fwyaf effeithiol pan fydd yr ysgol yn mabwysiadu nifer o ddulliau ac ymyriadau sy'n ategu ei gilydd ac sy'n gorgyffwrdd. Mae'r mentrau a ddefnyddir gan ysgolion i annog presenoldeb yn cael eu dylanwadu gan nifer o ffactorau lleol, gan gynnwys tueddiadau rhieni ac amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Oherwydd y cymhlethdod cyd-destunol hwn a'r angen i ganolbwyntio ar y dysgwr, mae gwella presenoldeb yn gofyn am ddull ysgol gyfan a system gyfan. Mae gwella presenoldeb, fel gydag unrhyw agwedd arall ar wella addysg, yn dibynnu ar ehangder a chydlyniant yr ymateb gan y system addysg a phartneriaid. (*Llywodraeth Cymru, 2023, Perthyn, ymgysylltu a chymryd rhan: Canllawiau ar wella ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr, t. 1*).

Diogelu


Mae rôl addysg wrth ddiogelu plant yn effeithiol yn hanfodol gan fod lleoliadau addysg yn dod i gysylltiad aml â phlant a theuluoedd a gallent fod yr unig weithwyr proffesiynol yn eu bywydau. Mae lleoliadau addysg yn aml yn dod â phlentyn i gysylltiad ag oedolyn y maent yn ymddiried ynddo a bydd staff yn dod i adnabod y plentyn a'r teulu yn ogystal â'u cymuned ehangach. Daw hyn â chyfrifoldebau a chyfleoedd, a dylai diogelu gael ei wreiddio yn niwylliant lleoliad addysg fel y gellir cychwyn ymyrraeth gynnar ac atal, lleihau risgiau a lleihau effaith trawma. Nid yw'r dull lles ysgol gyfan (lleoliad) yn ymwneud â hyrwyddo un fenter unigol, nac ymyrraeth dros unrhyw fenter arall gan nad oes ateb syml, a bydd angen i bob ysgol ystyried sut mae'n mynd i'r afael â'i hanghenion yn unol â'i hamgylchiadau unigryw ei hun. Yn ei hanfod, mae'r fframwaith yn ymwneud ag atgyfnerthu'r pethau bach sy'n adeiladu'r perthnasoedd cadarnhaol sydd, yn anad dim, yn gwneud gwahaniaeth ac sy'n meithrin yr ymdeimlad o gymuned ac o berthyn - nid yn unig perthnasoedd rhwng dysgwyr a staff, ond hefyd perthnasoedd sy'n rhychwantu cymuned, ffiniau statudol a thrydydd sector, fel bod y system gyfan, gan weithio o amgylch yr ysgol neu'r lleoliad addysg yn ganolbwynt i'r gymuned, yn gallu creu ethos sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi lles emosiynol a meddyliol. Mae angen cefnogaeth y system addysg gyfan ar y dull hwn a bydd pob rôl a chyfrifoldeb yn yr adran hon yn cyfrannu at ei lwyddiant. (*Llywodraeth Cymru, 2022, Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002, tud.13*)

Cyflawni dull ysgol gyfan

Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau a thempled i ddatblygu a sefydlu dulliau ysgol gyfan effeithiol cyson o ymdrin â lles o fewn ein hysgolion a'r gymuned ehangach, er mwyn sicrhau parhad a thegwch i bawb.

Drwy eu cylch gwella ysgolion, mae angen i ysgolion nodi eu cryfderau a'u meysydd datblygu, gan gyd-lunio cynllun i fynd i'r afael â bylchau ac adolygu effaith camau gweithredu. Dylai'r broses fyfyrto a gwella hon fod yn barhaus. Gellir defnyddio'r camau a amlinellir yn y cylch hunan-wella isod i gefnogi ysgolion yn y broses hon.

Cylch Hunan-Wella



(Llywodraeth, Cymru.
Fframwaith ar sefydlu dull
ysgol gyfan ar gyfer lles
emosiynol a meddyliol,
2021. Tud., 8).

Rôl Offeryn Hunanasesu y Tîm Ysgolion sy'n Hybu Iechyd

Gall offeryn hunanasesu Ysgolion sy'n Hybu Iechyd helpu ysgolion i archwilio eu dull at iechyd meddwl a lles emosiynol ar draws holl feysydd bywyd a dysgu'r ysgol, gan gynnwys yr amgylchedd a'r ethos, yn ogystal â'r cwricwlwm a pholisïau. Mae'r offeryn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio fel rhan o gylch adolygu rheolaidd sy'n llywio ac yn dangos tystiolaeth o broses ddatblygu'r ysgol ac yn helpu i ddangos bod yr ysgol yn cyflawni ei chyfrifoldeb statudol i weithredu a sefydlu dull ysgol gyfan o ymddrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol fel y'i mapiwyd yn y Fframwaith statudol (2021).

Y broses o gwblhau'r offeryn, a'r trafodaethau ar draws cymuned yr ysgol yw rhan fwyaf gwerthfawr y broses. Mae llawer llai o werth mewn grŵp bach o unigolion sy'n cwblhau'r offeryn ar wahân. Gall y broses amlygu a dathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn ogystal â thynnu sylw at feysydd i'w datblygu.

Efallai y byddwch yn ystyried rhannu meysydd o arfer effeithiol a meysydd o angen neu flaenoriaeth gyda'ch clwstwr a chydag ymarferydd cymorth Tîm sy'n Hybu Iechyd yr ysgol, er mwyn helpu i lywio cymorth lleol a chenedlaethol yn y dyfodol.

Mae Offeryn Hunanasesu'r Tîm Ysgolion sy'n Hybu Iechyd hefyd yn rhoi cyfle i ysgolion gael trosolwg o'u darpariaeth bresennol ac mae'n cynnig dull strwythuredig o adolygu a gweithredu, gan alluogi ysgolion i fonitro, dathlu a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.

Dylai'r ysgol ystyried y canlynol:

- Cwblhau'r adolygiad drwy broses ar y cyd (drwy ymgynghori a thrafod) - yn ddelfrydol gyda gwahanol grwpiau o fewn yr ysgol, megis yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, athrawon, staff cymorth, rhieni a dysgwyr.
- Nodi meysydd o arfer effeithiol, a blaenoriaethau ar gyfer datblygu pellach, ar gyfer cynllunio byrdymor a/neu hirdymor
- Gweithio gyda'u clwstwr ysgolion i rannu syniadau a chynlluniau posibl y gellir eu gweithredu ar y cyd (er enghraifft, ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygiadau mewn clystyrau).
- Defnyddio cymorth allanol, fel Ysgolion Iach a/neu Arweinwyr Awdurdodau Lleol ar gyfer Lles a Chydraddoldeb i gael cyngor ar y broses adolygu a chynllunio dull Ysgol Gyfan, gan nodi meysydd cyffredin i'w datblygu a all lywio canllawiau, hyfforddiant neu gymorth lleol neu genedlaethol yn y dyfodol.

Gellir dod o hyd i'r offeryn drafft yma:

[Iechyd Cyhoeddus Cymru - Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Lles Emosiynol a Meddyliol \(Offeryn Hunanasesu\)](#)


Awgrymiadau ar gyfer datblygu dull ysgol gyfan o ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol: Cynllun Datblygu Ysgol

Mae'r tabl isod yn cynnig awgrymiadau ar gyfer datblygu dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol. Mae'r awgrymiadau hyn yn cynnwys targedau posibl Cynllun Datblygu Ysgol a Meini Prawf Llwyddiant sy'n gysylltiedig â'r pwyntiau bwled cryno (tud., 3 a 4).

	Bydd angen i ysgolion/leoliadau:	Targedau Cynllun Datblygu Ysgolion (CDY) posibl:	Meini prawf llwyddiant:
	Ymgorffori lles da drwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys cwricwlwm yr ysgol. Drwy eu cylch gwella ysgolion, mae angen i ysgolion nodi eu cryfderau a'u meysydd datblygu, gan gyd-lunio cynllun i fynd i'r afael â bylchau ac adolygu effaith camau gweithredu. Dylai'r broses fyfyrion a gwella hon fod yn barhaus.	- Gall dysgwyr siarad yn agored am eu hiechyd meddwl, eu teimladau, eu syniadau a'u hemosiynau a rhai pobl eraill. - Mae dulliau addysgu a dysgu yn gwneud y mwyaf o ddulliau cyfranogol. - Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu ac ymarfer sgiliau llythrennedd emosiynol. - Anogir dysgwyr i reoli risgiau, mynegi syniadau ac emosiynau.	Mae lles emosiynol a meddyliol yn cael ei ddatblygu drwy gydol cwricwlwm yr ysgol a gweithgareddau allgyrsiol. Mae dulliau trawsgwricwlaidd yn hyrwyddo lles meddyliol ac emosiynol ar draws y cwricwlwm, nid yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn unig.
	Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddweud wrth bartneriaid/ rhanddeiliaid beth yw eu barn am y camau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith, gan nodi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac ar eu cyfer.	- Rhoddir cyfle i ddysgwyr gyfrannu at ddatblygiad lles emosiynol a meddyliol yn eu hysgol/leoliad. - Mae Cynghorau Ysgol yn sicrhau bod llais pob dysgwr yn cael ei glywed. - Mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cymryd rhan ym mywyd yr ysgol. - Polisiâu sy'n gyfeillgar i ddysgwyr yn cael eu rhannu â/wedi'u hysgrifennu gan ddysgwyr -	Mae llais disgyblion effeithiol yn effeithio ar y ddarpariaeth. Mae llais disgybl clwstwr effeithiol yn effeithio ar ddarpariaeth ehangach o fewn y clwstwr.

	Datblygu dull ysgol gyfan cynhwysol a ddylai gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol da i bawb. Mae'n ymwneud â meithrin cydnerthedd a sicrhau camau ataliol drwy ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol.	- Mae perthnasoedd cadarnhaol yn cael eu datblygu'n weithredol rhwng dysgwyr a staff ac aelodau o'r gymuned ysgol ehangach, gan ddefnyddio dulliau ysgol gyfan, fel Hyfforddi Emosiynau - Mae holl aelodau cymuned yr ysgol yn deall sut i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol. - Ymdrinnir â gwrthdaro a bwlio mewn modd cyson. Mae dulliau adferol wedi'u gwreiddio ar draws yr ysgol gyfan. - Mae rhieni/gofalwyr yn deall dull y lleoliad o ddatblygu ethos a diwylliant cadarnhaol ac yn deall sut y gallant gefnogi'r dull hwn yn y cartref.	Canlyniadau arolygon lles dysgwyr (ee HAPPEN a SHRN) Mae holiaduron Rhieni/Gofalwyr/Staff yn llywio blaenoriaethau'r CDY. Mae Polisiâu Gwrthfwlio / Ymddygiad Cadarnhaol effeithiol yn cael eu llunio. Mae hyn yn cynnwys polisiâu yn cael eu cynhyrchu gan ddysgwyr.
	Cydnabod a mynd i'r afael ag anghenion lles meddyliol ac emosiynol pob plentyn a pherson ifanc a'r oedolion y maent yn gweithio gyda nhw, gan gydnabod bod lles da i bawb yn galluogi llwyddiant allweddol, ac yn cyflawni potensial personol, emosiynol ac academiaidd.	- Nodir anghenion emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n briodol. - Mae'r holl staff yn deall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, trawma, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ati. - Mae anghenion lles emosiynol a meddyliol yn bwydo i mewn i bwyntiau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol/Lleoliad. Caiff	Mae arolygon lles dysgwyr a staff/ holiaduron yn llywio pwyntiau gweithredu ar gyfer CDY. -Holiaduron Lles Staff Powys (a rennir gan yr ALI)

		y rhain eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.	
	- Cydnabod cyfrifoldeb yr ysgolion i nodi arwyddion o les gwael a sicrhau bod cymorth effeithiol yn cael ei roi ar waith pan fydd dysgwr yn profi gofid mwy difrifol. Dylid cefnogi pob dysgwr i wybod sut, pryd a ble i fynd ati i chwilio am gymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill.	- Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn gallu nodi anghenion lles emosiynol a meddyliol sydd angen cymorth asiantaeth allanol ar gyfer holl aelodau cymuned yr ysgol. - Mae staff yn gwybod sut i gysylltu ag asiantaethau allanol priodol, neu'n gwybod pa aelodau o staff i siarad â nhw, i gefnogi'r anghenion emosiynol a meddyliol newidiol yn yr ysgol/lleoliad. - Mae Cynghorau Ysgol yn creu gwybodaeth sy'n ystyriol o ddysgwyr ac sy'n cael ei rhannu'n weithredol i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bob dysgwr.	Mae pob aelod o'r gymuned ddysgu yn gwybod sut, pryd a ble i fynd ati i chwilio am gymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill. Fe wnaeth y tîm o amgylch y Clwstwr rannu rhestr gyda'r holl staff (tud. 24)
	Annog ethos lle mae lles meddyliol ac emosiynol yn cael ei drafod yn agored. Dylai'r holl staff wybod sut i geisio cymorth ar gyfer eu lles meddyliol ac emosiynol eu hunain.	- Mae uwch arweinwyr yn gwybod sut i gefnogi staff i gael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol a chynghori. Mae cyfeirio clir yn hysbysu'r holl staff am y gwasanaethau hyn - Yn dilyn absenoldeb staff, dilynir gweithdrefnau dychwelyd i'r gwaith i helpu i nodi	Mae'r holl staff yn gwybod sut i geisio cymorth ar gyfer materion lles emosiynol a meddyliol.

		patrymau absenoldeb/achosion sylfaenol. - Polisi drws agored i staff - Cyfeirio at wasanaethau perthnasol - Hysbysfwrdd staff - 'Gwiriadau' lles rheolaidd gyda staff - Hyfforddiant staff i adnabod arwyddion o straen ac ati.	
	Cydnabod arfer effeithiol presennol ym Mhowys a chefnogi'r gwaith o ddatblygu dull strategol ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol, drwy ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	- Adeiladu ar yr arferion presennol i gryfhau'r gwaith o ddatblygu dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol	Caiff arfer effeithiol ei rhannu o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau Powys drwy weithio o un ysgol i'r llall a chyfleoedd dysgu proffesiynol.
	Gofynion statudol pellach: - Cyfrifoldeb holl aelodau cymuned yr ysgol yw hyrwyddo'r polisi hwn yn weithredol; Corff Llywodraethu, Uwch-dîm Arweinyddiaeth, Staff Addysgu a Chymorth. - Dylai Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid benodi arweinydd dynodedig ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol ym mhob ysgol, er mwyn cydlynu dull cydweithredol gyda'r holl randdeiliaid. - Awdurdod Lleol i hwyluso hyfforddiant i'r holl staff allweddol, er mwyn sicrhau bod pob ysgol a chymuned yn cael gwell gwybodaeth ac mewn sefyllfa well i nodi, deall a chefnogi anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol. - Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.		

Awgrymiadau ar gyfer nodi anghenion lles dysgwyr

Mae HAPPEN <<https://happen-wales.co.uk/registration/>> (Health and Attainment of Pupils in Primary School Evaluation Network) yn rhwydwaith ysgolion cynradd sy'n dod ag addysg, iechyd ac ymchwil ynghyd yn unol â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (Maes) yn y Cwricwlwm i Gymru. Drwy gymryd rhan yn arolwg HAPPEN, caiff ysgolion ddealltwriaeth well o iechyd corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr, er mwyn galluogi pawb i gydweithio i wella lles a chyflawniad academiaidd.

